CYSTADLEUAETH PRIF GYNHYRCHYDD CIG OEN

# PRIME LAMB

CFfI Cymru | Wales YFC

PRIME LAMB PRODUCER COMPETITION

**PRIF GYNHYRCHYDD ŴYN**
**PRIME LAMB PRODUCER**

## CYMHWYSTRA

1. Mae'r gystadleuaeth yn agored i Aelodau Ffederasiwn CFfI Gymru, yn ogystal ag aelodau Ffederasiynau CFfI Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Sir Gaer.

2. Gall cystadleuwyr ymgeisio am Gystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Ŵyn yn ogystal â'r Gystadleuaeth Bîff Ifanc.

3. Rhaid i gystadleuwyr fod wedi cyrraedd eu 10fed pen-blwydd erbyn diwrnod cyntaf y Ffair Gaeaf ag i fod o dan 28 mlwydd oed neu'n iau ar 1af o Fedi 2026. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

4. Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

## YMGEISIO

5. Caniateir un ymgais gan bob aelod, ond gellir cystadlu fel cystadleuydd unigol, dau gystadleuydd neu fel grŵp.

6. Dyddiad cau'r cystadleuaeth yw 7fed o Hydref 2025 trwy portal ar wefan Y Sioe Fenhinol – Ffair Aeaf. Rhaid i'r holl ŵyn fod wedi cael eu prynu erbyn y dyddiad hwn a rhaid iddynt fod ar gael i'w tagio wedi y 2il o Dachwedd.Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.

7. Tâl cystadlu o £5.00.

## MANYLION Y GYSTADLEUAETH

8. Rhaid i'r holl ŵyn fod wedi'u geni ym mlwyddyn rownd derfynol y gystadleuaeth. Rhaid i unrhyw stoc a ddangosir, ar adeg ymgeisio, fod yn eiddo dilys y sawl y mae ei enw yn ymddangos ar y ffurflen gystadlu.

9. Uchafswm y pwysau a ganiateir ar gyfer ŵyn byw yw 110kg, yn unol â rheolau Ffair Aeaf Cymru. Caiff ŵyn dros y pwysau hwn eu diarddel o'r gystadleuaeth.

10. Rhaid i'r holl ŵyn fod yn fridiau ucheldir neu iseldir pur ac yn unol â'ch pâr byw. Caiff yr ŵyn eu harchwilio wrth iddynt gyrraedd, ac os canfyddir nad ydynt yn enghreifftiau nodweddiadol o'r brid dan sylw, cânt eu diarddel.

11. Dylai'r aelod ddewis hyd at pump oen, a dylai pob un ohonynt fod o fewn y tri categori canlynol:

- Bridiau Ucheldir Cynhenid,
- Bridiau Iseldir Cynhenid neu
- Fridiau Cyfandirol Pur.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Ucheldir Cynhenid: Balwen; Torddu; Torwen; Defaid Mynydd Cymreig Duon; Cheviot Bryniau Brycheiniog; Cheviot Gogledd yr Alban; Cheviot De'r Alban; Bryniau Ceri; Defaid Mynydd De Cymru; Defaid Mynydd Tregaron; Defaid Mynydd Talybont; Defaid Penfrith; Biwla; Defaid Mynydd Cymreig (Pedigri); Defaid Mynydd Cymreig (Mynydd); Bryniau Maesyfed; Jacob ac unrhyw frid ucheldir cynhenid arall.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Iseldir Cynhenid:Llŷn; Llanwenog; Ryeland Lliw; Poll Dorset / Dorset Horn; Suffolk; Ryeland; Southdown ac unrhyw frid iseldir cynhenid arall.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Cyandirol Pur: Beltex, Texel Prydeinig, Dutch Texel, Charollais, Texel Glas, Berrichion Prydeinig, Zwartbles, Bleu du Maine, Charmoise Hill, Rouge Prydeinig ac unrhyw frid cyfandirol pur arall.

12. Rhaid i'r holl ŵyn fod yn fridiau pur a heb eu hachredu. Derbynnir ŵyn sydd wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru.

13. Dylai aelodau ddewis hyd at pump oen o'r un brid, a chânt eu tagio gan un o gynrychiolwyr swyddogol CFfI Cymru. O blith y pump, dylai'r aelod ddewis dau i'w dangos yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

14. Rhaid i'r holl ŵyn, fod yn wyn benyw neu ŵyn gwryw wedi'u hysbaddu. NI chaniateir unrhyw ŵyn meheryn. Caiff unrhyw ŵyn sy'n arddangos nodweddion gwrywaidd eu diarddel o'r gystadleuaeth.

15. Yn dibynnu ar faint o ŵyn sy'n cystadlu, gellir rhannu categorïau os bydd angen hynny ar sail pwysau, ond penderfyniad CAFC a neb arall fydd hynny.

16. **Ni ddylai** anifeiliaid sy'n cael eu dangos gan aelodau CFfI Cymru yn y dosbarthiadau CFfI gystadlu mewn unrhyw ddosbarthiadau eraill yn Ffair Aeaf 2026.

**TREFN CYSTADLU**

17. Gofynnir i aelodau lenwi taflen wybodaeth amdanynt hwy a'u wyn ar cyn y Ffair Aeaf a bydd angen ei ddychwelyd erbyn Dydd Sul y 23ain o Ragfyr. Defnyddir yr wybodaeth gan y sylwebydd pan ddangosir yr ŵyn yn y cylch.

Taflen Wybodaeth - - https://forms.gle/dmMoVeZQSZnjY1aC8

1.8 Dylai'r ŵyn gyrraedd Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Sul 23ain Tachwedd rhwng 9 y bore a 2 y prynhawn. Caiff yr ŵyn eu cadw mewn corlannau yn adran benodol y CFfI, a neilltuir gan y Stiwardiaid.

19. Bydd yr ŵyn yn cael eu pwyso wrth iddyn gyrraedd ar y dydd Sul.

20. Bydd y beirniadu yn digwydd yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Llanelwedd, ar 30ain o Dachwedd a'r 1af o Ragfyr 2026. Ni chaniateir i ŵyn adael y sioe tan ar ôl yr arwerthiant ar 1af o Ragfyr 2026

21. Rhaid i'r ŵyn sy'n cystadlu yn y Ffair Aeaf fod wedi'u golchi cyn cyrraedd, ac ni chaniateir unrhyw tocio na chneifio i'r corff, ac eithrio sgwaru'r gynffon, tocio'r gynffon a chlipio'r bol i'w chlanhau. Caiff yr ŵyn eu harchwilio gan arbenigwr annibynnol ar adeg y pwyso, ac os canfyddir ei bod wedi'u tocio, ni chaniateir iddynt gystadlu.

22. Ni chaniateir i ŵyn a ddangosir yn y gystadleuaeth fod wedi cael eu trochi mewn trochdrwyth yr ychwanegwyd lliw iddo. Rhaid i'r holl baratoadau a ddefnyddir fod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

23. Mae gan y cystadleuwyr y **opsiwn** i gael eu cefnogi gan 'Noddwr', megis cymdeithas brid, sefydliad marchnata, busnes leol neu un o gefnogwyr eraill y diwydiant.

24. Bydd pob cystadleuydd yn cael lle penodol i godi bwrdd a dylid cynnwys manylion am yr ŵyn, manylion am y costau priodol, manylion y porthiant a gwybodaeth ynglŷn â'i noddwr. Gall y bwrdd fesur hyd at 3tr x 3tr.

25. Yn ystod y Ffair Aeaf, bydd yn ofynnol i bob cystadleuydd ddangos eu hŵyn yn y Prif Gylch fel gellir eu beirniadu. Rhaid tywys yr holl ŵyn â phenffestr. Dylai'r ŵyn gael eu tywys gan un cystadleuydd ac un aelod arall dan 28 mlwydd oed. Bydd angen i'r ddau aelod ddangos eu cardiau aelodaeth yn ystod y gystadleuaeth

26. Gwobrau: Caiff Ŵyn Byw eu beirniadu ar y diwrnod mewn tri ddosbarth:
**Adran Bridiau Ucheldir Cynhenid,**
**Adran Bridiau Iseldir Cynhenid,**
**Adran Bridiau Cyfandirol Pur**

27. Bydd y pâr o ŵyn sy'n dod yn gyntaf ym mhob un o Ddosbarthiadau CFfI yn mynd ymlaen i'r Bencampwriaeth gynrychioliadol ac yn erbyn Enillwyr yn yr Adran Agored:

- Bydd pâr o ŵyn a ddaeth yn 1af yn yr adran Bridiau Ucheldir Cynhenid yn mynd ymlaen i Bencampwriaeth Bridiau Ucheldir Cynhenid y Ffair y Aeaf ar y ddydd Mawrth
- Bydd pâr o ŵyn a ddaeth yn 1af yn yr adran Bridiau Iseldir Cynhenid yn mynd ymlaen i Bencampwriaeth - Bridiau Iseldir Cynhenid y Ffair y Aeaf ar y ddydd Mawrth
- Bydd pâr o ŵyn a ddaeth yn 1af yn yr adran Bridiau Cyfandirol Pur yn mynd ymlaen i Bencampwriaeth - Bridiau Cyfandirol Pur y Ffair y Aeaf ar y ddydd Mawrth

28.Yna bydd y tri Par o ŵyn a ddaeth yn 1af yn tri dosbarth CFFI Cymru yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ddod o hyd i Bencampwr CFfI Cymru. Bydd yr anifail sy'n dod yn ail i'r pencampwr yn gymwys i gystadlu am Is Bencampwr CFfI Cymru.

29. Dyfernir rhosglymau i 'Bencampwr Cynhyrchydd Wyn CFfI Cymru' a 'Is-Bencampwr Cynhyrchydd Wyn CFfI Cymru', 'Y Bwrdd Gwybodaeth Gorau' a'r 'Cystadleuydd Newydd yn y Safle Uchaf'

30.Gall cystadleuwyr gynnig eu hŵyn i'w gwerthu yn yr arwerthiant. Cyfrifoldeb yr aelodau fydd hysbysu'r arwerthwyr ynghylch unrhyw isafswm pris y byddant yn dymuno ei bennu i'w hŵyn. Cyfrifoldeb yr aelod yw mynd â'r ŵyn i'r cylch arwerthu pan fydd angen hynny.

31.Rhaid cynnig y Pencampwyr ac enillwyr Cilwobr y Pencampwyr i'w gwerthu

32. Daliwch sylw: mae rheolau cyffredinol CFfI Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn berthnasol i'r gystadleuaeth hon.

33. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan CFfI Cymru ar 01982 553502 neu e-bostiwch materiongwledig@yfc-wales.org,uk

**SYSTEM FARCIO**

Dyfernir 70% o'r marciau ar ddangos yr anifail gyda 30% o'r marciau'n dod o'r Bwrdd Gwybodaeth.

- Dyfernir 70% o'r marciau am stocmonaeth yn y sioe, wedi'u barnu dros y 3 diwrnod gan ystyried:
• Trin a dangos yr anifail,
• Paratoi. Cyflwyniad a lles yr anifail
• Agwedd a chydweithrediad â stiwardiaid yr adran a staff a swyddogion CFfI.

- Dyfernir 15 % o'r marciau am y bwrdd a'r costau. A bydd yn ystyried:
• Costau – i gynnwys pris prynu'r wyn,
• Os caiff ei brynu o fferm arall / cartref rhaid iddo adlewyrchu prisiau cyfredol y farchnad.
• Manylion yr wyn– i gynnwys lleoliad y pryniant,
• Gwybodaeth yn hysbysebu'r "Noddwr",
• Effaith gyffredinol y cyflwyniad a
• Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gyflwynir.

- Dyfernir 15% o'r marciau am ateb cwestiynau gyda beirniad y bwrdd arddangos, ni fydd y cwestiynnau yn para mwy na 10 munud.

Rhoddir y Gwobrau canlynol yn ystod y gystadleuaeth.
1. Par uchaf yn y cylch arddangos
2. Bwrdd Gwybodaeth Gorau
3. Cystadleuydd Newydd yn y Safle Uchaf yn Gyffredinol
4. Enillydd Cyffredinol

**FFURFLEN GAIS**
**CYSTADLEUAETH PRIF GYNHYRCHYDD ŴYN**

I fod yn gymwys i gystadlu yng nghystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Cig Oen 2024, cwblhewch **Ffurflen Ar-lein Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn y **7fed o Hydref 2026**

Bydd y ddolen i Borth Mynediad Ar-lein Frenhinol Cymru yn cael ei gysylltu **YMA** unwaith y byddant wedi agor.

**Os ydych chi dan 18 mlwydd oed, mae angen cadarnhad gan riant.**

**RWYF WEDI DARLLEN RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH AC RWY'N CYTUNO I GADW ATYNT.**

**materiongwledig@yfc-wales.org.uk**

**FFEDERASIWN CFFI CYMRU, CANOLFAN CFFI, LLANELWEDD, LLANFAIR YM MUALLT, POWYS, LD2 3NJ**

CFfI YFC
CYMRU | WALES